
**Pa mor drwm?**
Bydd angen clorian gegin sy'n pwyso pethau mewn cilogramau.



- Gofynnwch i'ch plentyn ddod o hyd i rywbeth sy'n pwyso tua 1 cilogram.
- All e/hi ddod o hyd i rywbeth sy'n pwyso 1 cilogram yn union?
- Dod o hyd i bethau sy'n pwyso tua hanner cilogram.

**O'n cwmpas**
- Yn ystod yr wythnos chwiliwch am rifau 'tri deg', fel 34 neu 38, ar ddrysau tai, rhifau ceir, arosfannau bysus, etc. Faint welsoch chi? Beth oedd yr un mwyaf?

31 39 36 35 33


- Yr wythnos nesaf, chwiliwch am rifau 'pum deg', neu 'chwe deg'…

**Faint …?**
Unwaith yr wythnos, tynnwch y newid mân o'ch pwrs. Cyfrwch yr arian gyda'ch plentyn.



# Targedau i ddisgyblion Blwyddyn 2

Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn




## Llyfryn i rieni

Rhoi help llaw gyda mathemateg eich plentyn

# Targedau – Blwyddyn 2 1

**Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o blant yn gallu …**

- ☐ Cyfrif hyd at 100 o leiaf, a darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 100.
- ☐ O gael unrhyw chwe rhif hyd at 100, eu rhoi mewn trefn.
- ☐ Cyfrif ymlaen ac yn ôl fesul un neu fesul deg o unrhyw rif dau ddigid, e.e. *dau ddeg chwech, tri deg chwech, pedwar deg chwech …*
- ☐ Adnabod odrifau ac eilrifau.
- ☐ Adio a thynnu rhifau dan 20 yn eu pen.
- ☐ Gwybod parau rhif 'degau' sy'n gwneud 100, e.e. 30 + 70.
- ☐ Dyblu a haneru rhifau bach, e.e. dwbl 9 yw 18, a hanner 18 yw 9.
- ☐ Gwybod tabl 2, 5 a 10 ar eu cof.
- ☐ Cyfrifo cyfanswm gwerth llond dwrn o ddarnau arian hyd at £1.
- ☐ Mesur neu bwyso gan ddefnyddio metrau, centimetrau, cilogramau neu litrau.
- ☐ Defnyddio pren mesur i dynnu a mesur llinellau i'r centimetr agosaf.
- ☐ Dweud faint o'r gloch yw hi i'r hanner awr a chwarter awr.
- ☐ Enwi a disgrifio siapiau 2-D a 3-D cyffredin.
- ☐ Datrys problemau rhif syml, ac egluro eu dull gweithio.

## Y targedau

Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai eich plentyn allu eu gwneud erbyn diwedd Blwyddyn 2.


Mae rhai o'r targedau yn fwy anodd mewn gwirionedd, e.e. efallai y bydd plant sy'n gallu cyfrif hyd at 100 yn dal i gael trafferth i ddweud beth sy'n dod ar ôl 47 neu pa rif sy'n dod o flaen 50.

## Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref

### Ffeithiau rhif

Bydd angen dis 1–6.

- ♦ Cymerwch eich tro. Rholiwch y dis. Tybed pa mor gyflym allwch chi ddweud y rhif i'w adio at y rhif ar y dis i wneud 10, e.e.



a **6**

- ♦ Os ydych yn iawn, rydych chi wedi sgorio pwynt.
- ♦ Y cyntaf i sgorio 10 pwynt sy'n ennill.

Gallwch ymestyn y gweithgaredd hwn drwy adio'r ddau rif i wneud 20, neu 50.